# SL(6)232 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022

## Cefndir a diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â’r Gymraeg ("safonau"). Mae'r safonau hyn yn disodli'r cynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 8) (“y Rheoliadau”) yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion. Mae'r Rheoliadau yn gwneud y safonau yn benodol gymwys i berson a restrir yn Atodlen 6 (“y cyrff”). Awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i’r cyrff hynny mewn perthynas â’r safonau a bennir, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a nodir yn rheoliad 3(2). Y cyrff hynny yw:

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae’r Rheoliadau hyn yn dilyn Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 7) 2018 (“Rheoliadau 2018”), a oedd yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru. Fel arfer mae rhif yn enw un o gyfres o Offerynnau Statudol yn cyfeirio at y nifer a wnaed yn y flwyddyn benodol. Yn yr achos hwn mae’r rhif yn cyfeirio at y gyfres gyfan o Reoliadau Safonau, sy’n parhau o Reoliadau 2018, yn yr un modd ag y mae gorchmynion cychwyn wedi’u rhifo.

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r wyddor Gymraeg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau. Mae’r arddull hon yn wahanol i’r arddull rifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar Reoliadau drafft Safonau’r Gymraeg rhwng 16 Mawrth 2020 a 2 Hydref 2020. Yn sgil pandemig COVID-19, estynnwyd yr ymgynghoriad er mwyn i bawb sydd â diddordeb yn y Rheoliadau drafft gael cyfle i rannu eu

barn. Daw'r Rheoliadau'n i rym ar 31 Hydref 2022, os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2022. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor hwn yn nodi bwriad y Gweinidog i dynnu'r Rheoliadau'n ôl ac ail-osod fersiwn wedi'i chywiro ohonynt. Cafodd y Rheoliadau hyn eu hail-osod ar 30 Mehefin 2022.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.